| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cynghorydd Gwyneth Ellis – Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Dyddiad** | 10 Hydref 2023 |
| **Aelod Arweiniol** | Paul Barnes / Rachel Thomas, Contractau a Pherfformiad, Cyllid ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Rachel Thomas, Contractau a Pherfformiad, Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Cynnig i dendro ar gyfer cyngor defnyddwyr ac ariannol o 1 Ebrill 2024 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae ein contract cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024 ac rydym yn cynnig mynd allan i dendr ar gyfer contract newydd, i sicrhau parhad gwasanaeth.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rydym yn ceisio cymeradwyaeth gan ein Haelod Arweiniol i fynd allan i dendr ar gyfer y contract hwn o dan eu pwerau dirprwyedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod swyddogion yn symud ymlaen i dendro ar gyfer y contract hwn.

3.2 Bod yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) wedi ei ddarllen, ei ddeall a'i ystyried.

## 4. Manylion yr adroddiad

<u>Cefndir</u>

4.1. Mae gan yr Awdurdod gontract 5 mlynedd ar gyfer Cyngor Defnyddwyr ac Ariannol, ar hyn o bryd gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych. Mae hwn yn darparu gwasanaeth cyngor defnyddwyr ac ariannol annibynnol, cyfrinachol am ddim i drigolion Sir Ddinbych. Fe'i dyluniwyd i atal a gostwng y problemau a wynebir gan ein trigolion mewn perthynas â meysydd megis yr ystod lawn o fudd-daliadau a hawliau, dyled, cyllidebu, ynni a thanwydd, tai, cyflogaeth, materion defnyddwyr a theuluol/perthnasoedd.

4.2 Mae'r contract cyfredol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024 ac rydym yn cynnig mynd allan i dendr ffurfiol ar gyfer contract newydd. Bydd hyn yn sicrhau ein bod wedi profi'r farchnad a bod gennym gontract newydd mewn lle ar gyfer 1 Ebrill 2023 gyda darparwr sy'n gallu darparu'r gwasanaethau pwysig hyn ar safon uchel.

4.3 Mae gwerth y contract cyfredol yn £1,170,000 (hy £234,000 y flwyddyn am 5 mlynedd). Rydym yn cynnig cadw gwerth y contract ar y pris hwn oherwydd cyfyngiadau cyllideb presennol. Fodd bynnag i sicrhau nad ydym yn gweld gostyngiad yn y gwasanaeth a ddarperir, byddwn yn gweithio tuag at wella ein prosesau mewnol ei hunain i gryfhau ansawdd a chanolbwynt atgyfeiriadau ac felly helpu i reoli'r galw.

4.4 Dros y blynyddoedd diwethaf mae swyddogion wedi bod yn gweithio'n galed gyda thimau eraill CSDd sydd ag amrywiaeth o brosiectau llai gyda'r darparwr. Mae'r rhain yn brosiectau pwrpasol gydag angen gwasanaeth penodol ac wedi eu hariannu gan ffrydiau cyllid ar wahân, ond maent yn rhannu nifer o nodweddion sy'n debyg i'r prif gontract. O ganlyniad, mae swyddogion sy'n rheoli'r prif gontract wedi ffurfio trefniadau gweithio anffurfiol gyda'r timau CSDd perthnasol. Mae hyn wedi hwyluso llawer mwy o ddealltwriaeth o'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael gan yr Awdurdod gyda'r darparwr, gan roi dull Un Cyngor i ni gyda mwy o bwerau o ran cysoni ac arloesi a dileu unrhyw ddyblygu.

<u>Y cynnig o ran y contract newydd</u>

4.5 Gan fod angen caffael y prif gontract, mae gennym gyfle nawr i gynnwys adnewyddu prosiectau eraill CSDd mewn un tendr / un contract wrth symud

ymlaen. Mae hyn yn ffurfioli'r trefniadau gweithio ar y cyd ac yn gwella'r manteision. Mae hyn hefyd yn arbed amser swyddogion ar brosesau caffael gan y bydd un proses yn weithredol yn hytrach na nifer o brosesau. Rheolir y contract ar gyfer y prosiectau eraill hefyd ac ni fydd llawer o effaith ar adnoddau gan y bydd swyddogion yn cyfarfod gyda'r darparwr yn rheolaidd beth bynnag ar gyfer y prif gontract.

4.6 Mae hwn yn gontract allweddol ar unrhyw amser, gan ei fod yn darparu ymyrraeth i gefnogi ein trigolion cyn bo problemau yn gwaethygu. Yn ystod y cyfnod hwn o argyfwng costau byw mae hi'n bwysicach nag erioed i ddarparu'r ymyrraeth er mwyn gostwng y galw ar wasanaethau rheng flaen CSDd. Mae mwy o fanylion ynghylch pwysigrwydd y gwaith hwn a sut mae'n ymwneud yn uniongyrchol â blaenoriaethau Corfforaethol yn yr adran nesaf, Adran 5.

<u>Sefyllfa gaffael</u>

4.7 Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chaffael CSDd sydd wedi cynghori gan fod gwerth y contract rhwng £1 miliwn a £2 filiwn (uchafswm fydd £1.61 miliwn), yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau CSDd, y broses swyddogol i'w dilyn yw penderfyniad dirprwyedig gan yr Aelod Arweiniol (gyda chytundeb gan y Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro). Gweler Atodiad 2.

4.8 Amserlenni arfaethedig

- Medi / Hydref - cymeradwyaeth ffurfiol a pharatoi dogfennaeth
- 1 Tachwedd - allan i dendr / 1 Rhagfyr - dyddiad cau
- Rhagfyr - gwerthuso ceisiadau
- Dechrau Ionawr - llythyrau hysbysu i gynigwyr llwyddiannus ac aflwyddiannus
- Canol Ionawr - dyfarnu'r contract (i ganiatáu ar gyfer TUPE os bydd darparwr newydd)
- 1 Ebrill - dyddiad cychwyn y contract

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Sir Ddinbych ffyniannus - bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau bod gan drigolion Sir Ddinbych y cyfle gorau i reoli arian a gwneud y mwyaf o'u hincwm. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ffyniant yr unigolyn ac yna'r economi leol. Bydd y ddarpariaeth yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg fodern a chyfrannu at gymdeithas carbon isel. Disgwylir i'r darparwr roi buddion cymunedol sy'n cynnig cyfleoedd yn ymwneud â gwaith.

5.2. Tai - bydd y contract yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i'r rhai sy'n ddigartref neu mewn perygl o ddigartrefedd.

5.3. Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal - bydd hyn hefyd yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i'r rhai mwyaf diamddiffyn a dan anfantais gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, gan sicrhau eu bod yn cael cyngor ac arweiniad priodol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn allweddol i drechu tlodi yn Sir Ddinbych fel gwasanaeth ei hun ond hefyd bydd y darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid eraill i ymdrin â heriau'r argyfwng costau byw a'r rhagolygon economaidd mwy hir dymor.

5.4. Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad - trwy brofi'r farchnad rydym yn sicrhau ein bod yn sicrhau contract gyda phartner o safon sy'n gallu helpu'r Cyngor i gyflawni blaenoriaethau perthnasol. Mae'r dull cydweithredol o un contract ar gyfer nifer o dimau yn ffordd hynod o effeithiol o sicrhau effeithlonrwydd mewn prosesau a gwariant.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amcangyfrif o werth y contract yw £1.61 miliwn am gyfnod o 5 mlynedd (gweler atodiad 2 am fwy o fanylion). Mae'r contract hwn yn allweddol o ran atal a gostwng y galw ar wasanaethau rheng flaen yr Awdurdod a'r costau cysylltiedig. Mae'r prif gontract a'r prosiectau eraill yn weithredol ar yr un pris ar hyn o bryd, felly nid yw hwn yn wariant newydd.

6.2. Mae'r gwaith ychwanegol i gaffael ar y cyd gyda'r prif gontract ac yna rheoli'r contract yn gyfannol wrth symud ymlaen angen ychydig iawn o amser swyddog a gellir ei reoli o fewn adnoddau sydd ar gael hy dim cost ychwanegol.

6.3. Nid oes unrhyw effaith negyddol ar wasanaethau eraill.  Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r gwasanaethau eraill i sicrhau eu bod yn cael y gwerth gorau posib o'r contract.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Trwy ddarparu gwasanaeth cyngor defnyddwyr ac ariannol am ddim, annibynnol a diduedd, ar gael i bawb ar draws Sir Ddinbych, mae trigolion yn fwy tebygol o gael mynediad at yr holl fudd-daliadau a gwasanaethau perthnasol; gwybod eu hawliau a'u cyfrifoldebau; bod mewn gwell sefyllfa i reoli arian nawr ac yn yr hirdymor.  Bydd hyn oll yn cyfrannu at gynyddu incwm, gallu dygymod gyda'r argyfwng costau byw, synnwyr o rymuso personol a gwella lles. O ganlyniad effeithir yn gadarnhaol ar drigolion Sir Ddinbych. Bydd y rhai o grwpiau gwarchodedig, diamddiffyn a dan anfantais yn elwa'n arbennig.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Gan fod gwerth ariannol y contract arfaethedig hwn yn dod o fewn y broses penderfyniad dirprwyedig rydym wedi bod yn ymgynghori â'n Haelod Arweiniol.

8.2. Ar gais yr Aelod Arweiniol cyflwynwyd adroddiad ar y cynnig i dendro i sesiwn Briffio'r Cabinet ar 2 Hydref 2023 er gwybodaeth.  Roedd y Cabinet yn fodlon gyda'r adroddiad a chadarnhawyd yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau y dylid cyflwyno'r cais am gymeradwyaeth i fynd allan i dendr i'r Aelod Arweiniol o dan y broses penderfyniad dirprwyedig.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r adroddiad yn amlygu manteision y llwybr caffael a gytunwyd, na ddylai olygu unrhyw gynnydd mewn costau i'r gwasanaeth llwyddiannus hwn wrth gynnal lefelau gwasanaeth. Mae'r dull un Cyngor, trwy ddod a meysydd gwasanaeth eraill i'r contract hwn, hefyd yn cael ei groesawu. Cefnogir yr adroddiad.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r risgiau yn ymwneud â darpariaeth wael o'r contract, fodd bynnag ein mesurau lliniaru yw:-

- Bydd swyddogion yn gweithio gyda Chaffael ar y gweithdrefnau contract cywir i sicrhau partner o safon uchel i ddarparu'r contract hwn.
- Mae gan swyddogion brofiad sylweddol o reoli'r contract hwn yn llwyddiannus hyd yma.
- Y darparwr i adrodd ar set o ddangosyddion perfformiad allweddol. Diweddariadau ar berfformiad DPA a'r contract yn gyffredinol i'w darparu'n fisol i'w hadolygu mewn cyfarfodydd gweithredol misol rhwng y Cyngor a'r darparwr.
- Gwneir taliadau'r contract mewn ôl-daliadau chwarterol ar yr amod bod y darparwr yn bodloni rhwymedigaethau'r contract.
- Datblygir cofrestr risg ar gychwyn y contract hwn i sicrhau fod unrhyw risgiau gweithredol yn cael eu hadnabod a'u lliniaru cyn belled ag y bo modd.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Rheolau'r Weithdrefn Gontractau CSDd (sirddinbych.gov.uk) yn nodi fod contractau sydd â gwerth rhwng £1 miliwn a £2 filiwn i'w cymeradwyo trwy benderfyniad dirprwyedig gan yr Aelod Arweiniol a gyda chytundeb y Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro.

11.2. Yn unol â phwerau sydd wedi'u dirprwyo i ddeiliad portffolio'r Cabinet fel y nodir yn Atodiad 2(b) yn Adran 13 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.